



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru:**

**Tystiolaeth atodol Llywodraeth Cymru  
i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng  
Nghymru – Cyfiawnder Teuluol**



# Cyfiawnder Teuluol

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn atodol i gyflwyniad Llywodraeth Cymru ar 4 Mehefin 2018. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar heriau presennol a newydd mewn perthynas â gweithredu'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

## Cyd-destun

Cyfiawnder teuluol yw'r gangen o'r system gyfiawnder sy'n delio ag anghydfodau cyfreithiol am drefniadau gofal plant. Gall hyn gynnwys rhieni sydd wedi gwahanu neu ymyriadau gan awdurdodau lleol i amddiffyn plant sydd wedi, neu yr amheuir eu bod wedi cael eu niweidio neu'u cam-drin yn sylweddol. Mae'n faes cyfraith, polisi a gweinyddiaeth sy'n pontio'r setliad datganoli. Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd eu hunain, mae'r brif asiantaeth sy'n gyfrifol am ofalu am fuddiannau plant yng Nghymru, sef y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass Cymru), wedi'i datganoli ac yn rhan o Lywodraeth Cymru. At hynny, mae llawer o'r gyfraith berthnasol yn y maes, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol, wedi'i datganoli. Mae'r gyfraith hon yn aml yn cyflwyno swyddogaethau i awdurdodau lleol, sy'n chwarae rhan bwysig yn y broses cyfiawnder ieuencid, sydd hefyd yn dod o dan gyfrifoldebau datganoledig. Fel sy'n digwydd yn aml yng Nghymru, felly, mae cyfrifoldebau rhanedig a rhyng-gysylltiadau o fewn y system cyfiawnder teuluol sy'n gallu achosi cymhlethdod a gwrthdaro.

## Gweithrediad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru

Caiff y system cyfiawnder teuluol ei dosbarthu'n gyffredinol ar sail p'un a yw'n ymwneud ag achos 'cyfraith breifat' neu achos 'cyfraith gyhoeddus'.

Mae achos cyfraith breifat yn ymwneud ag ysgaru a gwahanu ac yn cynnwys rhieni neu warcheidwaid neu ofalwyr eraill na allant gytuno ar drefniadau ar gyfer eu plant. Mae achos cyfraith gyhoeddus yn ymwneud ag ymyriadau gan awdurdodau lleol i amddiffyn plant lle bo problemau ynghylch lles plant. Fodd bynnag, gall y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o achos fod yn aneglur gan fod rhai achosion cyfraith breifat yn cynnwys elfennau o gyfraith gyhoeddus ac i'r gwrthwyneb (a dadleuwyd hefyd nad yw'r dosbarthiadau hyn yn ddefnyddiol<sup>1</sup>).

Mae'r gwahaniaeth, serch hynny, yn ddefnyddiol er mwyn archwilio hynodion y setliad datganoli yng Nghymru. Mewn achos cyfraith gyhoeddus, nid yw'r llysoedd eu hunain wedi'u datganoli nac ychwaith y gyfraith benodol y gwneir ceisiadau gofal oddi tani (Deddf Plant 1989). Fodd bynnag, mae'r endid cyhoeddus sy'n ymyrryd (awdurdod lleol) a'r endid cyhoeddus (Cafcass Cymru) sy'n cynrychioli buddiannau'r plant wedi'u datganoli, yn ogystal â llawer o'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r cymorth a'r ymyriadau cynnar a gynigir i deuluoedd yng Nghymru (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae hyn yn enghraifft o fodolaeth awdurdodaeth gyfreithiol gyfun Lloegr a Chymru yn gorchymyn beth y dylid ei ddatganoli, yn hytrach na phenderfynu ar y ffordd fwyaf cydlynol o rannu cyfrifoldebau. Mae meysydd amddiffyn a llesiant plant wedi'u datganoli, ond mae hyn yn amodol ar unrhyw beth sy'n ymwneud â'r llysoedd ("cyfraith teulu") nad yw wedi'i ddatganoli. Mae hyn, ynddo'i hun, yn afresymegol.

Mewn achosion cyfraith breifat, nid yw'r llysoedd na'r gyfraith berthnasol wedi'u datganoli, ond mae Cafcass Cymru. Mae Cafcass Cymru yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar blant, yn diogelu plant ac yn sicrhau bod llais plant yn

<sup>1</sup> A Bainham, 'Private and public children law: an under-explored relationship' (2013) 25 Child and Family Law Quarterly tt 138-158 [https://fourteen.co.uk/wp-content/uploads/2014/02/CFLQ\\_CFLQ\\_2013\\_2\\_Articles\\_2\\_sys.pdf](https://fourteen.co.uk/wp-content/uploads/2014/02/CFLQ_CFLQ_2013_2_Articles_2_sys.pdf)

cael ei glywed mewn llysoedd teulu ledled Cymru. Ei ddiben yw sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y llysoedd mewn materion cyfiawnder teuluol yn diogelu buddiannau'r plentyn. Mae Cafcass Cymru yn rhan ffurfiol o Lywodraeth Cymru ac yn cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru gan Ran 4 o Ddeddf Plant 2004.

Mae Adran 35 o'r Ddeddf honno yn darparu fel a ganlyn:

### **35 Functions of the Welsh Ministers relating to family proceedings**

(1) In respect of family proceedings in which the welfare of children ordinarily resident in Wales is or may be in question, it is a function of the Welsh Ministers to:

- (a) safeguard and promote the welfare of the children
- (b) give advice to any court about any application made to it in such proceedings
- (c) make provision for the children to be represented in such proceedings
- (d) provide information, advice and other support for the children and their families.

(2) The Welsh Ministers must also make provision for the performance of the functions conferred on Welsh family proceedings officers by virtue of any enactment (whether or not they are exercisable for the purposes of subsection (1)).

(3) In subsection (1), "family proceedings" has the meaning given by section 12 of the Criminal Justice and Court Services Act 2000 (c. 43).

(4) In this Part, "Welsh family proceedings officer" means:

- (a) any member of the staff of the Welsh Government appointed to exercise the functions of a Welsh family proceedings officer

- (b) any other individual exercising functions of a Welsh family proceedings officer by virtue of section 36(2) or (4).

Mae prif ddyletswyddau cyfreithiol Cafcass (mewn perthynas â Lloegr) a Cafcass Cymru (mewn perthynas â Chymru), er eu bod yn deillio o ffynonellau gwahanol, yn debyg iawn. Mae Adran 12 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn nodi prif swyddogaethau Cafcass mewn achosion teuluol lle mae neu lle gall fod amheuron ynghylch lles plant. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys diogelu a hyrwyddo lles y plant, rhoi cyngor i unrhyw lys ar unrhyw gais a wneir iddo mewn achosion o'r fath, gwneud darpariaeth i'r plentyn gael ei gynrychioli mewn achosion o'r fath a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i'r plant a'u teuluoedd.

Fodd bynnag, mae'r swyddogaethau a nodir yn Adran 12 o Ddeddf 2000 ar gyfer Lloegr ac Adran 35 o Ddeddf 2004 ar gyfer Cymru yn gyffredinol iawn ac yn rhoi cryn ddisgresiwn i'r ddau sefydliad o ran y swyddogaethau y gallant eu cyflawni mewn achosion teuluol. (Ac yn y ddau achos, mae "achosion teuluol" yn cynnwys, lle bo'r cyd-destun yn caniatáu hynny, achosion teuluol sydd yn yr arfaeth neu achosion sydd wedi dod i ben. Mewn egwyddor, mae hyn yn galluogi'r ddau sefydliad i wneud gwaith gyda phlant cyn ac ar ôl achosion mewn llysoedd teulu.)

### **Problemau â'r system cyfiawnder teuluol**

Mae'r System Cyfiawnder Teuluol wedi cael ei diwygio a'i gwella'n sylweddol yn dilyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a gadeiriwyd gan Syr David Norgrove ac a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Tachwedd 2011. Sefydlwyd yr adolygiad i gydnabod y pwysau cynyddol ar y system cyfiawnder teuluol, a phryderon am oedi a'i heffeithiolrwydd yn gyffredinol. Roedd yr adolygiad yn feirniadol iawn o'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr a daeth i'r casgliad ei bod yn:

**“...a system that is not a system, characterised by mutual distrust and a lack of leadership, by incoherence and without solid evidence based knowledge about how it really works.”**

Mae nifer o argymhellion yr adroddiad, ac yn wir natur yr adolygiad eu hun, yn tynnu sylw at gymhlethdod y system a'r ffaith ei bod yn pontio “jagged edge” y setliad datganoli. Yn gyntaf, mae'n nodedig y cafodd yr adolygiad ei noddi ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (DU), yr Adran Addysg (DU) a Llywodraeth Cymru. Mae casgliadau'r Adolygiad yn nodedig hefyd gan ddatgan:

**“organisational structures are complicated and overlapping, with no clear sense of leadership or accountability. No one looks after the performance for the system as a whole” and**

**“there is no set of shared objectives to bind agencies and professionals to a common goal and to support joint working and planning between them.”**

Nid yw'r diagnosis hwn yn anghyffredin mewn systemau mawr sy'n cynnwys nifer o bartïon â diddordeb, ac mae'r nod o weithio mewn ffordd gydgyssylltiedig yn anodd ei gyflawni. Fodd bynnag, mewn system sy'n rhannol ddatganoledig ac yn rhannol annatganoledig, mae bron yn amhosibl sicrhau atebolrwydd clir ac arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y system gyfan. Mae hyn yn amharu ar y gallu i weithio mewn ffordd gydgyssylltiedig ac yn ei gwneud hi'n anos cytuno ar amcanion cyffredin. Er ei bod hi'n bosibl, wrth gwrs, i gytuno ar nod cyffredin i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant, mae penderfynu sut i wneud hyn yng Nghymru a Lloegr, yn ymarferol, yn peri problemau am resymau ymarferol ac oherwydd gwahaniaethau yn y polisïau a ddilynir.

Mae'n arwyddocaol y bu'n rhaid teilwra nifer o argymhellion yr Adolygiad i Gymru neu Loegr yn dibynnu ar y graddau yr oeddent yn ymdrin â swyddogaeth ddatganoledig. Yn yr un modd, mae camau i weithredu rhai o argymhellion yr Adolygiad wedi amrywio am yr un rheswm.

Cydnabyddir yn eang bod y System Cyfiawnder Teulu yn wynebu heriau newydd ac uniongyrchol ar hyn o bryd o ystyried y cynnydd sylweddol a pharhaus yn nifer y ceisiadau cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Mae ymateb i'r heriau hyn mewn ffordd gydlynol a systematig yn gymhleth am fod rhai gwasanaethau wedi'u datganoli ac eraill heb eu datganoli.

Sefydlwyd y **Bwrdd Cyfiawnder Teuluol** yn 2011 i weithredu argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Diben y Bwrdd yw gwella perfformiad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n dod i gysylltiad â hi. Mae ei aelodau'n cynnwys uwch-gynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr ac, fel sylwedyddion, uwch-aelodau o'r Farnwriaeth. Caiff y Bwrdd ei gyd-gadeirio gan Weinidogion o Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU ac Adran Addysg y DU a chyfarfu'n ddiweddar ar 6 Mehefin 2018 ar ôl seibiant o 17 mis (yn ystod y cyfnod hwn, penododd Llywodraeth y DU dri Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gyfiawnder).

Ni chaiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar y Bwrdd ar lefel wleidyddol ond mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr Cafcass Cymru a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yng Nghymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn aelodau. Mae'r Bwrdd, fodd bynnag, yn gogwyddo o blaid swyddogaethau sydd heb eu datganoli fel

Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a sefydliadau yn Lloegr fel yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Prif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr ac Ofsted.

Mae **Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru** wedi'i sefydlu, a gydlynir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn dwyn ynghyd yr holl gyrff allweddol yn y system cyfiawnder teuluol ar lefel Cymru gyfan. Y bwriad yw datblygu diben a dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella gwasanaethau a chanlyniadau i blant a theuluoedd yng Nghymru. Sefydlwyd y Rhwydwaith mewn ymateb i un o argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol er mwyn helpu i fonitro perfformiad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Bwriedir i'r Rhwydwaith ategu, cefnogi a llywio gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ac yn enwedig y cynrychiolwyr o Gymru sy'n aelodau ohono. Cafodd ei sefydlu er mwyn cynghori ar faterion sy'n benodol i Gymru a chymryd camau penodol mewn perthynas â'r agweddau datganoledig ar gyfiawnder teuluol yng Nghymru. Arweinir y Rhwydwaith gan Lywodraeth Cymru ac, yn arwyddocaol, mae naw o'i aelodau yn cynrychioli sefydliadau datganoledig a thri yn cynrychioli sefydliadau sydd heb eu datganoli. Er bod aelodau o'r farnwriaeth yn mynd i gyfarfodydd yn swyddogol fel sylwedyddion, maent yn chwarae rôl allweddol mewn trafodaethau, yn enwedig wrth ystyried cydberthnasau gwaith rhwng y farnwriaeth a gwasanaethau plant awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cafodd **Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol** eu sefydlu yng Nghymru a Lloegr i gefnogi gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol drwy ddwyn ynghyd yr asiantaethau lleol allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a staff rheng flaen. Mae'r Byrddau hyn wedi'u sefydlu ledled Cymru

a Lloegr ond nid yw eu rôl wedi'i datblygu'n llawn. Yng Nghymru, mae'r holl randdeiliaid sy'n mynychu'r Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol, ac eithrio Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM, wedi'u datganoli.

## Heriau parhaus a newydd

Mae'r diwygiadau a wnaed o ganlyniad i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn golygu bod systemau bellach ar waith sy'n ceisio dwyn ynghyd y cyrff cyhoeddus a'r asiantaethau niferus a'r ddwy lywodraeth dan sylw yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r system llysoedd teulu yng Nghymru yn wynebu pwysau parhaus a chynyddol, gyda llwythi gwaith yn parhau'n uchel ac adnoddau'n prinhaus. Dros y degawd diwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 25%<sup>2</sup>. Mae'r duedd hon, a welir yn Lloegr hefyd, yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau ac adnoddau awdurdodau lleol yn ogystal â'r system gyfiawnder. Roedd 3,012 o blant yn rhan o achosion cyfraith gyhoeddus (o dan adran 31 o Deddf Plant 1989) yn 2016-17; cynnydd o 17% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwnaed 1,039 o geisiadau (gofal) adran 31 yn 2016-17; cynnydd o 25% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, mae ceisiadau cyfraith breifat wedi cynyddu gyda 1,680 o atgyfeiriadau yn 2016-17, cynnydd o 26% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ac er eu bod yn cyd-fynd yn gyffredinol â lefelau amddifadedd, mae gan rai awdurdodau lleol â lefelau sylweddol o amddifadedd gyfraddau cymharol isel o blant sy'n derbyn gofal. Mae hwn yn un o'r meysydd y bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella

<sup>2</sup> Ym mis Mawrth 2017, roedd 5,954 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Mae bron i dri chwarter o'r plant hyn mewn lleoliadau gofal maeth, sy'n costio tua £100m y flwyddyn i awdurdodau lleol.

Canlyniadau i Blant, sy'n adrodd i Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn ei ystyried fel rhan o'i raglen waith. Nod y Grŵp Cynghori, y mae ei aelodau'n cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn plant sy'n derbyn gofal, yw gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a nodi pa ymyriadau cynnar a chamau ataliol y gellid eu cymryd er mwyn helpu i leihau nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal.

### **Achosion 'cyfraith gyhoeddus'**

Ym maes cyfraith gyhoeddus, mae gwahaniaeth cynyddol rhwng y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, yn bennaf o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan Gymru bolisiau cynyddol wahanol hefyd mewn meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfiawnder teuluol. Felly mae gweithio ar draws system cyfiawnder teuluol sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr yn dod yn fwy heriol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn achlysurol â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Y bwriad yn y cyfarfodydd hyn yw trafod a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau a materion yn y maes cyfiawnder teuluol er mwyn llywio datblygiadau polisi ac ymateb i faterion sy'n codi. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sydd bob amser yn gorfod trefnu'r cyfarfodydd hyn ac yn aml iawn, ni chaiff ei chynnwys mewn materion tan y diwedd sy'n golygu ei bod yn gorfod ceisio dal i fyny â Lloegr.

Mae'n dod yn anos cymryd rhan yn effeithiol mewn fforymau yng Nghymru a Lloegr fel y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol (sy'n ceisio hyrwyddo dull rhyngddisgyblaethol o ymdrin â chyfiawnder teuluol a monitro'r system). Er bod fforymau o'r fath bob amser wedi tueddu

i ganolbwyntio mwy ar faterion sy'n berthnasol i Loegr yn unig, mae hyn yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg oherwydd y gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth a pholisi.

### **Achosion 'cyfraith breifat'**

Mae Cafcass (Lloegr) wedi treialu mentrau'n ddiweddar i wella achosion cyfraith breifat. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cefnogaeth a diffyg tystiolaeth eu bod yn cael effaith wirioneddol, mae'r rhain wedi cael eu dirwyn i ben. Er mwyn gwneud gwelliannau gwirioneddol, y consensws sy'n datblygu yw bod angen diwygiadau deddfwriaethol, nid mân newidiadau i systemau a phrosesau. Mae pryderon y bydd oedi nawr cyn gwneud y diwygiadau hyn am fod Llywodraeth y DU wedi gohirio gwaith ar ddeddfwriaeth o ganlyniad i bleidlais y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Os caiff cynigion deddfwriaethol eu gwneud, bydd angen eu teilwra i gyd-fynd â'r trefniadau cyfansoddiadol gwahanol sydd ar waith yng Nghymru, ond mae'n anochel bron mai'r sefyllfa yn Lloegr fydd drechaf.

## **Goblygiadau gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Breifat**

Mae helpu teuluoedd sy'n gwahanu i wneud trefniadau diogel a phriodol i ofalu am eu plant yn hanfodol er mwyn gwella canlyniadau i blant yng Nghymru. Mae hyn yn ategu polisi Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o 'brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod' fel y'u gelwir a'u heffaith.

Yng Nghymru, polisi'r Llywodraeth hon yw targedu cymorth ac ymyriadau cynnar ac mae hyn yn rhan hanfodol o'n dull gweithredu i helpu teuluoedd sy'n gwahanu. Fodd bynnag, dyma ble gwelir y gwahaniaeth mwyaf mewn polisi rhwng Cymru

a Lloegr. Nid yw'n syndod, felly, bod cymorth ac ymyriadau cynnar yn dioddef am nad oes digon o waith cydgysylltiedig yn cael ei wneud ac am nad yw gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau sydd heb eu datganoli yn gweithredu mewn ffordd gydlynol. Mae'r broblem hon yn debygol o waethygu dros y blynyddoedd nesaf.

Un enghraifft o'r methiant hwn i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig yw bod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DU) yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu cyngor a chymorth i rieni sy'n gwahanu. Mae achosion lle mae arian ar gyfer gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar deuluoedd a phlant a all ddod yn rhan o achosion teuluol o dan gyfraith breifat wedi cael ei ddarparu yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Yn yr un modd, mae'r Adran Addysg (DU) yn ariannu gwasanaethau yn Lloegr sy'n helpu rhieni sy'n gwahanu nad ydynt ar gael yng Nghymru. Mae angen gweithredu ar sail system gyfan er mwyn helpu rhieni sy'n gwahanu yng Nghymru ond nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd o ganlyniad i setliad datganoli afresymegol.

## **Adolygiad Cyfiawnder Teuluol wedi'i Dargedu**

I ategu'r Adolygiad Argyfwng Gofal diweddar a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr gan Grŵp Hawliau'r Teulu, comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder 'Adolygiad Cyfiawnder Teuluol wedi'i Dargedu' ym mis Mawrth 2018. Ei ddiben yw mynd i'r afael ag effaith y lefelau cynyddol o alw ar y system cyfiawnder teuluol a'r amrywiadau mawr a welir yn lefel y galw rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r adolygiad yn cwmpasu'r gwaith y bydd angen ei wneud yn y dyfodol yn y maes hwn er mwyn llunio cynllun gweithredu clir ac ymarferol - gan gynnwys gweithredu, profi a gwerthuso ymyriadau mewn ardaloedd lleol o dan gyfraith gyhoeddus a phreifat.

O ran achosion cyfraith gyhoeddus, mae'r adolygiad yn ceisio deall a oes gwahaniaethau mewn ymarfer sy'n achosi amrywiadau yn nifer yr achosion ar lefel leol ac a oes arfer da y gellid ei rannu'n ehangach. Er mwyn helpu i lywio'r rhan hon o'r adolygiad, gweithiwyd ar y cyd ag ardaloedd byrddau cyfiawnder teuluol lleol er mwyn deall amrywiadau rhanbarthol yn well drwy ystyried data ac arferion rheoli achosion cysylltiedig.

Bydd yr agwedd hon ar yr adolygiad yn heriol iawn yng Nghymru gan mai swyddogaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, hyd yma, fu canolbwytio'n bennaf ar Fyrdau Cyfiawnder Teuluol Lleol yn Lloegr, a gweithio'n agos gydag Adran Addysg y DU i gasglu data perfformiad ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r Byrddau hynny. Mae Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru yn debygol o gynrychioli Cymru yn y gobaieth y caiff y sefyllfa yng Nghymru ei hadlewyrchu ac y caiff gwersi eu dysgu. Mae'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff data eu casglu yng Nghymru yn golygu y gallai tîm yr adolygiad orfod buddsoddi mwy o amser ac adnoddau er mwyn dod o hyd i ffordd o gysylltu a chymharu data rhwng Cymru a Lloegr yn briodol.

Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r nifer gynyddol o blant sy'n rhan o geisiadau newydd o dan gyfraith breifat, gan geisio sicrhau canlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd ar yr un pryd. Wrth ddatblygu cynigion, bydd yr adolygiad yn cydnabod y gorgyffwrdd rhwng cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat gan sicrhau bod y cynigion yn y meysydd hyn yn plethu â'i gilydd.

Caiff yr adolygiad ei arwain gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys uwch swyddogion o adrannau o lywodraeth y DU sydd â diddordeb mewn cyfiawnder teuluol. Mae uwch swyddog o Lywodraeth Cymru ac uwch swyddog o Cafcass Cymru yn aelodau cyswllt o'r grŵp. Bwriedir



cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd haf 2018 gan gyflwyno cyngor i Weinidogion Llywodraeth y DU ar y canfyddiadau.

## Casgliadau a'r ffordd ymlaen

Mae'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr yn cyflawni rôl hollbwysig o ran amddiffyn ein plant, yn enwedig plant sy'n agored i niwed. Mae'n glir, fodd bynnag, fod y system – er gwaethaf ymdrechion y rhai sy'n gweithio o fewn iddi – yn cael trafferth ymdopi â'r galw amdani. Mae'n glir hefyd o'r adolygiadau a gynhaliwyd y gall diffyg cydweithredu a chydgyssylltu ar brydiau rhwng y partïon niferus dan sylw amharu ar weithrediad y broses yn aml. Mae'r adolygiadau wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar annog cyrff i feddwl a gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig a chyfathrebu'n well. Mae diffyg atebolrwydd yn amlwg yn broblem hefyd. Mae'r defnydd cyson o'r gair “argyfwng” a'r casgliad ei bod yn “system that is not a system” yn awgrymu problemau dwfn.

Mae'r rhaniad artiffisial a mympwyol rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sydd heb ei ddatganoli yn dwysáu'r problemau hyn. Yn gyntaf, mae'r system cyfiawnder teuluol ei hun yn eistedd ar ymyl anesmwyth y setliad datganoli ac, mewn sawl ffordd, mae'n enghraifft berffaith o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r setliad. Ac yn ail, mae llywodraeth a chymdeithas fodern yn golygu nad yw'r system gyfiawnder yn gweithio ar ei phen ei hun – yn wir, mae'n amlwg nad yw'n gweithio ar ei phen ei hun. Wrth ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol, mae'n amlwg bod angen cael cymorth gan ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, sydd bron i gyd wedi'u

datganoli. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n atebol i feistri gwleidyddol gwahanol weithio gyda'i gilydd – rhywbeth sy'n ddigon anodd eisoes, heb ystyried y gwahaniaethau mewn polisi ac athroniaeth wleidyddol.

Gall y fforymau a'r rhwydweithiau amrywiol a sefydlwyd ers 2016 awgrymu bod ffordd o ddatblygu peirianwaith rhynglywodraethol a all ddatrys y problemau hyn. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod y diwygiadau wedi arwain at welliannau ac, yn wir, o safbwynt lleihau oedi, mae Cymru'n perfformio'n well na rhanbarthau Lloegr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn wedi digwydd er gwaethaf y system ac nid oherwydd y system ac mae eisoes yn amlwg bod y broses yn cael ei dominyddu gan Lywodraeth y DU a'i phryderon mewn perthynas â Lloegr. I raddau helaeth, caiff Cymru ei chynrychioli ond nid ei chlywed ac nid oes ganddi fawr ddim dylanwad ar broses sy'n cael ei chynllunio ar gyfer Lloegr gyda gobaith atodol efallai y gallai Llywodraeth Cymru a chyrff datganoledig wneud iddi weithio i Gymru.

Nid dyma sut y dylem geisio gwella bywydau plant yng Nghymru. Rhaid cael atebolrwydd, tryloywder a phrosesau gwneud penderfyniadau effeithiol a chllir. Nid yw hyn yn bosibl o fewn y “system” gymysg ac afreolaidd sydd gennym. Yn hytrach, rhaid datganoli cyfiawnder teuluol i Gymru a dylai Llywodraeth Cymru ddod yn gwbl gyfrifol am blant Cymru ac yn atebol dros hyn i bobl Cymru. Mae'n enghraifft nodedig, felly, pam mai cynigion ehangach Llywodraeth Cymru i ddiwygio trefniadau cyfansoddiadol Cymru yw'r peth cywir i'w wneud.